Briff Prosiect

Wythnos Plant a Phobl Ifanc Gwynedd 2009

1. Cyflwyniad:

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus penodi cwmni cysylltiadau cyhoeddus / rheoli digwyddiadau ar ran Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd i gynllunio, cydlynu, trefnu a marchnata'r Wythnos Plant a Phobl Ifanc cyntaf Gwynedd yn 2009.

1.2 Pwrpas yr Wythnos Plant a Phobl Ifanc yw arddangos gwaith y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc a'i bartneriaid unigol ym maes plant a phobl ifanc yn ogystal ag arddangos a dathlu doniau, sgiliau a llwyddiannau plant a phobl ifanc y Sir.

1.3 Y bwriad yw cynnal yr Wythnos Plant a Phobl Ifanc rhwng 23 a 27 Mawrth 2009.

2. Disgrifiad o'r Gwaith:

2.1 Dymuna Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd benodi cwmni cysylltiadau cyhoeddus / rheoli digwyddiadau i gynllunio, cydlynu, trefnu a marchnata'r Wythnos Plant a Phobl Ifanc.

2.2 Yn benodol, bydd y cwmni cysylltiadau cyhoeddus / rheoli digwyddiadau, dan arweiniad Cadeirydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, yn gyfrifol am:

- Gynllunio a chydlynu rhaglen o weithgareddau i'w cynnal yn ystod yr Wythnos Plant a Phobl Ifanc.
- Cynllunio, cydlynu a threfnu cynhadledd ryngwladol er mwyn arddangos y cynlluniau, rhaglenni a gwasanaethau arloesol ym maes plant a phobl ifanc sydd ar waith yng Ngwynedd.
- Cynllunio, cydlynu a threfnu digwyddiad penodol i ddathlu doniau a llwyddiannau plant a phobl ifanc Gwynedd mewn ymgynghoriad â Swyddog Cyfranogi'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.
- Datblygu a chynnal ymgyrch farchnata proffil uchel er sicrhau sylw a llwyddiant i'r Wythnos Plant a Phobl Ifanc.

2.3 Bydd disgwyliad clir ar y cwmni cysylltiadau cyhoeddus / rheoli digwyddiadau llwyddiannus i gydweithio'n agos iawn gydag amrediad o fudiadau ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc wrth gynllunio a threfnu'r Wythnos Plant a Phobl Ifanc. Darperir rhestr o gysylltiadau allweddol i'r ymgynghorydd / ymgynghorwyr llwyddiannus ar ddechrau'r gwaith.

3. Amserlen a Chyllideb:

3.1 Bydd cyfnod y cytundeb yn dechrau ar 12 Ionawr 2009 ac yn diweddu ar 31 Mawrth 2009.

3.2 Mae £5,000 (heb gynnwys TAW) ar gael i gefnogi'r gwaith gyda rhagor fel bo'r angen i dalu am gostau cysylltiol (e.e. llogi ystafelloedd cyfarfod, argraffu deunydd cyhoeddusrwydd).

4. Y Broses Tendro:

4.1 Dylai cwmnïau sy'n derbyn gwahoddiad i dendro cyflwyno cynnig ysgrifenedig sydd yn cynnwys pob agwedd ar gynllunio, cydlynu, trefnu a marchnata'r Wythnos Plant a Phobl Ifanc o fewn y raddfa amser a gytunwyd.

Dylai'r cynnig gynnwys y wybodaeth ganlynol:

(a) Profiad o gynllunio, cydlynu, trefnu a marchnata digwyddiadau cyffelyb yn y gorffennol.

(b) Disgrifiad clir a manwl o'r modd y bwriedir cwblhau'r gwaith a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny (heb gynnwys TAW).

(c) Gwybodaeth gyffredinol am y rhai fydd yn arwain y gwaith a disgrifiad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y cwmni.

4.2 Dylai cwmnïau y gwahoddir i dendro cyflwyno **dau gopi** o'r cais tendr yn unol â'r briff yma yn yr amlen dychwelyd tendr swyddogol amgaeedig wedi'i gyfeirio at:

Miss Ceri Lambert
Gwasanaethau Cefnogol
Cyfadran Datblygu
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
LL55 1SH

Rhif ffôn: 01286 679626
Ffacs: 01286 677347
E-bost: CeriLambert@gwynedd.gov.uk

4.3 Gall methu a defnyddio'r amlen a ddarparwyd arwain at y cyflwyniad tendr fod yn ddi-rym.

4.4 Rhaid derbyn y tendr erbyn ddim hwyrach na **hanner dydd, Dydd Llun, 05 Ionawr 2009**. Ni ddylai fod yna unrhyw farciau ar yr amlen a fyddai yn dynodi eich sefydliad.

4.5 Nodwch os gwelwch yn dda, y bydd pob gohebiaeth a anfonir fel rhan o'r contract yma yn unol â Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd, ac y bydd angen cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd ac yn y blaen. Dylai unrhyw gostau yn ymwneud â chyfieithu cael eu cynnwys yn eich tendr.

4.6 Rhaid i ymgynghorwyr a wahoddir i dendro cymhwyso polisi cyfle cyfartal effeithiol - yn ei fusnes fel cyflogwr, wrth ddefnyddio gwirfoddolwyr a darparu'r gwasanaethau - beth bynnag fo'u hiaith, hil, rhyw, tueddfryd rhywiol, credoau crefyddol, neu, gyhyd ag sy'n ymarferol, unrhyw anabledd. Dylai'r Ymgynghorydd amgáu copi o Bolisi Cyfle Cyfartal gyda'r cais tendro.

4.7 Atgoffir ymgynghorwyr bod Cyngor Gwynedd yn destun darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

5. Dyfarnu Cytundeb:

5.1 Bydd pob cynnig yn cael ei asesu ar sail ansawdd a gwerth am arian. Nid yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn ymrwymedig i dderbyn y tendr isaf neu unrhyw dendr a gyflwynir. Cedwir yr hawl i ofyn am wybodaeth bellach os oes angen.

5.2 Bydd Cyngor Gwynedd yn dyfarnu cytundeb fydd yn manylu ar amodau a thelerau, gan gynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig mewn personél neu fformat yn ystod tymor y cytundeb.

5.3 Mae cleient y cytundeb yn cadw'r hawl i derfynu'r penodiad ar unrhyw adeg yn dilyn talu pob ffi a chostau eraill a gytunwyd arnynt hyd at ddyddiad y terfyniad.

5.4 Bydd Cyngor Gwynedd yn cysylltu â'r cwmni llwyddiannus ac yn trefnu cyfarfod cynnar i drafod y gwaith mewn manylder. Bydd disgwyliad i'r cwmni llwyddiannus gadw mewn cysylltiad rheolaidd â Chadeirydd y Bartneriaeth Strategol a / neu ei gynrychiolydd fel bo'r gwaith yn datblygu.

5.5 Bydd y penodiad yn cynnwys amod y bydd y cwmni yn indemnio'r cleient yn erbyn unrhyw geisiadau yn codi o'r comisiwn, boed hynny oherwydd esgeulustod neu reswm arall. Dylid cadarnhau bod gan yr ymgynghorwyr a benodir yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o isafswm o £10 miliwn.

6. Gwybodaeth Bellach:

6.1 Dylid cyfeirio ymholiadau yn ymwneud â chynnwys cyffredinol y briff at:

Darren Griffiths, Cydlynydd Strategol – Plant a Phobl Ifanc

Uned Polisi a Pherfformiad, Cyfadran Datblygu, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Ffon: 01286 679788
E-bost: DarrenGriffiths2@gwynedd.gov.uk